Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig | Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee
Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20 – Barn Rhanddeiliaid y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig | Welsh Government draft Budget 2019-20 – CCERA Stakeholder Views
Bud 08
Ymateb gan : Cyfoeth Naturiol Cymru
Evidence from : Natural Resources Wales

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019–20 – Cynigion Amlinellol

Diolch am y cyfle i wneud sylwadau ynghylch Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019–20.

Sefyllfa Cyllid Cyfoeth Naturiol Cymru

Fel y rhan fwyaf o gyrff y sector cyhoeddus, mae ein cyllid 'craidd' gan Lywodraeth Cymru wedi cael ei leihau nifer o weithiau ers y cawsom ein creu yn Ebrill 2013.

Setliad Refeniw
Mae'r setliad diweddaraf 5% yn llai ar gyfer 2019–20 ar gyfer y rhan o'n gweithrediadau nad yw'n cael ei hariannu i ddelio â llifogydd. Nid ydym yn gwybod beth yw'r union setliad ar gyfer y rhan honno o'n gweithrediadau sy'n delio â llifogydd, gan fod y setliad a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar yr adeg hon ar ein cyfer ni a'r Awdurdodau Lleol. Rydym yn credu y bydd y dyraniad refeniw ar yr un lefel arian parod â 2018–19. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £700,000 ychwanegol i ni ar gyfer effaith y codiad cyflog cyfunedig yn 2018–19, sy'n ymwneud â gweithredu ein cynllun gwerthuso swyddi.

Rydym wedi cysylltu â'n Hadran Nawdd o fewn Llywodraeth Cymru ynglŷn â gweithio'n fwy agos ynghylch effaith y setliadau cyllid ar Cyfoeth Naturiol Cymru, a byddwn yn rhoi proses sy'n fwy cyfranogol ar waith o 2020–21 ymlaen. Rydym yn siomedig fod ein cyllid wedi cael ei leihau, ac mae hyn yn bygwth y gwasanaethau a’r dyletswyddau newydd y gallwn eu cynnig o fewn y rhan hon o'n gweithrediadau a ariannir gan gymorth grant.

Er mwyn rhoi hyn yn y cyd-destun ariannol ehangach, ers y cawsom ein creu ym mis Ebrill 2013, bydd ein cymorth grant llinell sylfaen ar gyfer y rhan o'n gweithrediadau nad yw'n

cael ei hariannu i ddelio â llifogydd wedi cael ei leihau gan £14 miliwn neu 20% mewn termau arian parod, a chan £25 miliwn neu 35% mewn termau real.
Bydd ein cymorth grant llinell sylfaen ar gyfer llifogydd hefyd wedi gostwng £2 miliwn neu 10% mewn termau real yn ystod yr un cyfnod.

Mae'r toriadau hyn i gyllid wedi dod ar adeg pan fyddwn yn ymdrechu i lawn weithredu egwyddorion a gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd. Bydd ein huchelgais yn cael ei gyfyngu, ac rydym yn cynllunio i gyflwyno achos busnes yn gynnar yn y flwyddyn galendr nesaf er mwyn ariannu effaith y ddeddfwriaeth hon yn iawn o 2020–21 o fewn ein llinell sylfaen.

Rydym wedi trafod â Llywodraeth Cymru ynghylch sut gallant gynorthwyo Cyfoeth Naturiol Cymru y tu allan i'r dyraniad, er enghraifft:

- Pe bai Cyfoeth Naturiol Cymru yn cadw ffioedd opsiynau ffermydd gwynt byddai hyn yn ein helpu i sefydlogi ein sefyllfa o ran cymorth grant. Mae'r derbyniadau a gynhyrchir gan y ffermydd gwynt a chynlluniau ynni adnewyddadwy eraill ar y tir yr ydym yn ei reoli yn cael eu hildio i Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd.
- Efallai y bydd angen newid deddfwriaeth fel ein bod yn gallu codi arian am fwy o wasanaethau yr ydym yn eu rheoleiddio, neu lle nad oes gennym y pŵer i fasnachu ar hyn o bryd.
- Darparu sicrwydd cyllid dros gyfnodau hirach.

Setliad Cyfalaf

Ein prif bryder yw maint ein dyraniad cyfalaf ar gyfer gweithrediadau nad ydynt yn cael eu hariannu i ddelio â llifogydd. Dim ond £0.8 miliwn ydyw (heb gynnwys y dyraniad ar gyfer Llwybr Arfordirol Cymru) lle mae angen dros £5 miliwn. Golyga hyn ein bod yn dibynnu ar gwtogi ar wasanaethau sy’n cael eu hariannu gan refeniw, a Llywodraeth Cymru yn gwneud dyraniadau ychwanegol at y cyllid. Yr elfen fwyaf sylweddol yw'r gwelliannau y mae angen i ni eu gwneud i gronfeydd dŵr sydd newydd gael eu dynodi oherwydd y Ddeddf Cronfeydd Dŵr.

Cyllid a Ddyrannwyd i Ddatgarboneiddio

O ystyried bod y targedau i leihau allyriadau Cymru i 45% o lefelau'r 1990au erbyn 2030, a'r weledigaeth i gael sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030 yn uchelgeisiol a heriol, rydym yn gefnogol o'r arian a ddyrennir i ddatgarboneiddio yn y gyllideb hon. Mae'r achos dros gyflymu'r gweithredu i leihau allyriadau wedi'i wneud yn glir iawn yn ddiweddar yn *Adroddiad Arbennig y Panel Rhynglywodraethol ar Newid yn yr Hinsawdd ar effeithiau 1.5°C o gynhesu byd-eang* a gyhoeddwyd yn gynharach y mis hwn. Yn wir, mae'r wyddoniaeth sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd yn darparu achos cynyddol ddiamwys a chryf dros yr angen am gyllid ychwanegol nid i yrru’r gwaith o leihau allyriadau a thwf economaidd gwell yn unig, ond hefyd i ddarparu manteision iechyd a llesiant.

Rydym yn arbennig o gefnogol o’r gwaith parhaus i alinio'r prosesau ariannol a chyllidebu carbon, gan sicrhau bod buddsoddiadau cyfalaf yn galluogi’r gwaith o leihau allyriadau, yn hytrach na rhwystro ein gallu i leihau allyriadau yn y dyfodol o fewn seilwaith newydd. Y pwyslais o fewn y flaenoriaeth ddatgarboneiddio yw cyflenwi adeiladau, cartrefi a seilwaith

sy'n fwy effeithlon o ran ynni a charbon isel, ond mae hefyd achos cryf i'w wneud dros fuddsoddi ychwanegol mewn seilwaith gwyrdd, a phlannu coetiroedd newydd ac adfer mawndiroedd. O fewn ystâd Cyfoeth Naturiol Cymru mae plannu coetiroedd newydd ac adfer mawndiroedd wedi'u nodi fel blaenoriaethau trwy'r prosiect Carbon Bositif er mwyn lleihau ein hallyriadau sefydliadol. Byddai rôl ehangach yr amcanion hyn y tu hwnt i ystâd Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu manteision sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau eraill sy'n berthnasol i lesiant o fewn yr amcan Ffyniant i Bawb.

Rydym yn croesawu'r gefnogaeth gan Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru sy'n darparu potensial pellach i sector cyhoeddus Cymru ymgymryd â mentrau ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni pellach. Yn flaenorol mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi defnyddio cymorth gan Twf Gwyrdd Cymru i gyflawni ei dargedau lleihau carbon a'r prosiect Carbon Bositif, ac rydym yn ymgorffori gwaith Carbon Bositif ar draws ein cylch gwaith ar hyn o bryd. Mae'r Gwasanaeth Ynni yn debygol o fod yn ffynhonnell gefnogaeth bwysig ar gyfer rhai agweddau ar y gwaith hwn.

Claire Pillman
Prif Weithredwr, Cyfoeth Naturiol Cymru